Mumbles Community Council

Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 23rd June 2026 at 6.30 pm via Teams only.

Councillors Present: Carrie Townsend Jones (Chair), Sara Keeton, and Rebecca Fogarty

Co-opted members present: Cllr Chris Evans

Officers Present: Mari Potter – Environmental and Sustainability Officer and Ian Hughes – CSO

EN2606-01	**Apologies:** Cllr Xanthe Keeton In addition it was noted that Cllr Nelson had resigned from The Environmental Committee in order to focus on The Culture Committee,
EN2606-02	**Declarations of Interest** Cllrs Fogarty and Sara Keeton declared a personal interest in relation to the Washinghouse Brook Update (**EN2606-10 refers**). In addition, Cllr Townsend Jones declared a personal interest in relation to the same agenda item through her connection with a local allotment association connected to Castle Woods Path.
EN2606-03	**Minutes of the previous Meeting of the Committee** To approve the minutes of the meeting held on 26th May 2026 as a true record. **RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 26th May 2026.
EN2606-04	**Actions arising from Previous Meetings** The CSO updated the committee on the outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members. The CSO outlined that he would be removing three of the completed actions from the existing 'outstanding' list. One of these actions pertained to the installation of a bat box (Action 130). Cllr Chris Evans who joined the meeting at 6.35 stated that no further action had been taken in relation to installing a box. **ACTION** Mari Potter . **RESOLVED:** Outstanding actions to be deferred to July 2026. Completed actions to be removed where appropriate with newly created actions being added.

Signed by Chair

EN2606-05	**Budget Monitoring Reports to 30/04/2026** Reports attached. **RESOLVED** to defer agenda item until either July or September 2026.
EN2606-06	**Training Plan** Mari Potter outlined how Ashley Haynes had recently undertaken a training course in relation to the design of enclosed land. Cllr Fogarty had registered for Part 1 of Biodiversity Training. The Chair, Cllr S. Keeton proposed showing The National Emergency Briefing Film at West Cross Community Centre. **ACTION** Mari Potter to create an invitation for the public and make the necessary arrangements together with the Chair, S. Keeton.
EN2606-07	**EO Report** Mari Potter had circulated her June Environmental Report prior to the meeting. Mari outlined that much of the report had not changed since the May Meeting. However relevant agenda items have been itemised separately below and other topics included:- • Clothes Swap. **(RESOLVED** to consider amalgamating Clothes Swap Events with Repair Café Events in the future) • Wales Nature Week **(RESOLVED** to launch water testing during Wales Nature Week, this would be launched at The Clyne Stream in Clyne Gardens on Saturday 4th July at 10.30am with Mari Potter making the necessary arrangements) **ACTION** Mari Potter to register MCC participation in Wales Nature Week**.** • Community Tidy Combining litter picks together with weeding was discussed and considered the most appropriate way of dealing with both issues under 'Community Tidy'. **RESOLVED** Mari Potter to liaise with Councillors over future monthly events either on a Saturday or Sunday.
EN2606-08	**Marketing and Social Media** Councillors noted the great contribution made by Cat Hiles, MCC's new Marketing Events Officer in promoting relevant environmental issues on the MCC Website and social media platforms. Consideration was given to extending environmental material contained within MCC's website from the autumn to include additional features such as birds and insects.

EN2606-09	**The Great Big Green Week Update** The Chair, Cllr S. Keeton and other councillors present wished to thank Mari Potter for organising such successful events during The Great Big Green Week. Of particular note were the yoga event at Oystermouth Castle and The Repair Café Event both of which were extremely popular. Mari Potter noted that she had received considerable positive feedback in relation to the yoga event. A large number of those attending enquired whether such events were regularly arranged by MCC. Mari explained that this had been a one-off event. Councillors considered that MCC should arrange well-being outdoor yoga in the future. Although this had previously been proposed and rejected by Full Council the Committee believed that there had been a material change providing positive evidence of the above yoga event. **ACTION** Mari Potter to research the option of regular outdoor yoga sessions for consideration at a future Environmental Committee Meeting.
EN260-10	**Washinghouse Brook Update** The Chair, Cllr S. Keeton and all Councillors present considered that the work on paths at the Washinghouse Brook and Castle Woods venues were progressing well. Positive feedback had also been received from the public The issue of replacing the gate at the Castle Woods venue together with improving and installing signs was discussed. The 'boggy' condition of Castle Woods was also noted and Cllr Fogarty agreed to address the matter through SCC. **RESOLVED** To make the issue of replacing the gate at Castle Woods and improving signs at the location the subject of a future budget proposal.

Meeting ended at 7.08.pm.

Next Meeting - 28th July 2026

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2026 am 6.30pm drwy gyfrwng Microsoft Teams yn unig

Cynghorwyr yn bresennol: Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Sara Keeton, a Rebecca Fogarty

Aelodau cyfetholedig yn bresennol: Y Cynghorydd Chris Evans

Swyddogion yn bresennol: Mari Potter – Swyddog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

EN2606-01	**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Xanthe Keeton Yn ogystal, nodwyd bod y Cynghorydd Nelson wedi ymddiswyddo o Bwyllgor yr Amgylchedd er mwyn canolbwyntio ar y Pwyllgor Diwylliant.
EN2606-02	**Datganiadau o fuddiant** Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y cynghorwyr Fogarty a Sara Keeton mewn perthynas â'r wybodaeth ddiweddaraf am Washinghouse Brook (**gweler EN2606-10**). Yn ogystal, cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Townsend Jones mewn perthynas â'r un eitem ar yr agenda oherwydd ei chysylltiad â chymdeithas rhandiroedd leol sy'n gysylltiedig â llwybr Coed y Castell.
EN2606-03	**Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2026 fel cofnod cywir. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2026.
EN2606-04	**Camau gweithredu yn codi o gyfarfodydd blaenorol** Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y camau gweithredu heb eu cwblhau, wedi iddo ddosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Dywedodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y byddai'n tynnu tri o'r camau gweithredu wedi eu cwblhau oddi ar y rhestr 'heb eu cwblhau' bresennol. Roedd un o'r camau gweithredu hyn yn ymwneud â gosod blwch ystlumod (gweithred 130). Dywedodd y Cynghorydd Chris Evans, a ymunodd â'r cyfarfod am 6.35pm, nad oedd unrhyw gamau pellach wedi eu cymryd mewn perthynas â gosod blwch. **CAM GWEITHREDU:** Mari Potter **PENDERFYNWYD:** Gohirio'r camau gweithredu heb eu cwblhau tan fis Gorffennaf 2026. Dileu'r camau gweithredu wedi eu cwblhau, lle bo'n briodol, gyda'r camau gweithredu newydd eu creu yn cael eu hychwanegu.

EN2606-05	**Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 30 Ebrill 2026** Yr adroddiadau wedi eu hatodi. **PENDERFYNWYD:** Gohirio'r eitem ar yr agenda tan naill ai mis Gorffennaf neu fis Medi 2026.
EN2606-06	**Cynllun hyfforddi** Soniodd Mari Potter bod Ashley Haynes wedi ymgymryd â chwrs hyfforddi yn ddiweddar mewn perthynas â dylunio tir caeedig. Roedd y Cynghorydd Fogarty wedi ymgofrestru ar gyfer Rhan 1 o'r Hyfforddiant Bioamrywiaeth. Cynigiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd S. Keeton, ddangos y ffilm cyfarwyddyd argyfwng cenedlaethol yng Nghanolfan Gymunedol West Cross. **CAM GWEITHREDU:** Mari Potter i greu gwahoddiad ar gyfer y cyhoedd, a gwneud y trefniadau angenrheidiol ar y cyd â'r Cadeirydd, S. Keeton.
EN2606-07	**Adroddiad Swyddog yr Amgylchedd** Roedd Mari Potter wedi dosbarthu ei hadroddiad amgylcheddol ar gyfer mis Mehefin cyn y cyfarfod. Dywedodd Mari nad oedd llawer o'r adroddiad wedi newid ers y cyfarfod ym mis Mai. Fodd bynnag, nodwyd yr eitemau perthnasol ar yr agenda, a restrir ar wahân isod, ac roedd pynciau eraill wedi eu cynnwys: • Cyfnewid dillad **(PENDERFYNWYD:** Ystyried uno digwyddiadau cyfnewid dillad â digwyddiadau'r caffi trwsio yn y dyfodol.) • Wythnos Natur Cymru **(PENDERFYNWYD:** Lansio profion dŵr yn ystod Wythnos Natur Cymru, ac y byddai hyn yn cael ei gynnal yn Nant Clun yng Ngerddi Clun ddydd Sadwrn 4 Gorffennaf am 10.30am, gyda Mari Potter yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.) **CAM GWEITHREDU:** Mari Potter i gofrestru cyfranogiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn Wythnos Natur Cymru. • Tacluso yn y gymuned Trafodwyd cyfuno casgliadau sbwriel â chwynnu, ac ystyriwyd mai'r ffordd fwyaf priodol o ymdrin â'r ddau fater oedd o dan 'tacluso yn y gymuned'. **PENDERFYNWYD:** Mari Potter i gysylltu â'r cynghorwyr ynghylch digwyddiadau misol yn y dyfodol, i'w cynnal naill ai ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul.

EN2606-08	**Marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol** Roedd y cynghorwyr am nodi cyfraniad gwych Cat Hiles, Swyddog Marchnata Digwyddiadau newydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls wrth hyrwyddo materion amgylcheddol perthnasol ar wefan a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Ystyriwyd ymestyn y deunydd am yr amgylchedd a gynhwysid ar wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls o'r hydref ymlaen i gynnwys nodweddion ychwanegol, megis adar a phryfed.
EN2606-09	**Yr Wythnos Werdd Fawr** Roedd y cadeirydd, y Cynghorydd S. Keeton a'r cynghorwyr eraill a oedd yn bresennol am ddiolch i Mari Potter am drefnu digwyddiadau mor llwyddiannus yn ystod yr Wythnos Werdd Fawr. Yn arbennig o nodedig oedd y digwyddiad ioga yng Nghastell Ystumllwynarth a digwyddiad y caffi trwsio, y ddau ohonynt yn hynod boblogaidd. Dywedodd Mari Potter ei bod wedi cael adborth cadarnhaol sylweddol mewn perthynas â'r digwyddiad ioga. Roedd nifer fawr o'r rhai a fu'n bresennol wedi holi a oedd digwyddiadau o'r fath yn cael eu trefnu'n rheolaidd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Eglurodd Mari mai digwyddiad untro oedd hwn. Roedd y cynghorwyr o'r farn y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls drefnu ioga llesiant yn yr awyr agored yn y dyfodol. Er bod hyn wedi cael ei gynnig a'i wrthod yn flaenorol gan y cyngor llawn, roedd y pwyllgor o'r farn bod newid sylweddol wedi bod, o ystyried y dystiolaeth gadarnhaol a gafwyd o'r digwyddiad ioga uchod. **CAM GWEITHREDU:** Mari Potter i ymchwilio i'r opsiwn o sesiynau ioga rheolaidd yn yr awyr agored i'w ystyried mewn cyfarfod o Bwyllgor yr Amgylchedd yn y dyfodol.
EN260-10	**Washinghouse Brook** Roedd y cadeirydd, y Cynghorydd S. Keeton a'r holl gynghorwyr a oedd yn bresennol o'r farn bod y gwaith ar lwybrau ger Washinghouse Brook a Choed y Castell yn mynd rhagddo'n dda. Roedd adborth cadarnhaol wedi dod i law gan y cyhoedd hefyd. Trafodwyd y mater o ailosod y glwyd yng Nghoed y Castell, yn ogystal â gwella a gosod arwyddion. Nodwyd cyflwr 'corsiog' Coed y Castell hefyd, a chytunodd y Cynghorydd Fogarty i fynd i'r afael â'r mater drwy Gyngor Dinas a Sir Abertawe. **PENDERFYNWYD:** Gwneud y mater o ailosod y glwyd yng Nghoed y Castell, a gwella arwyddion yn y lleoliad, yn destun cynnig am gyllideb yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.08pm

Cyfarfod nesaf – 28 Gorffennaf 2026